



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

PENODI YMDDIRIEDOLWYR

Gwybodaeth i Ymgeiswyr



"So! Beth sydd yn gwneud i chi feddwl y gallwch chi helpu'r Llyfrgell ymestyn allan i'r cyhoedd?"

www.llyfrgell.cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

GWYBODAETH I YMGEISWYR : CYFANSODDIAD A RÔL Y BWRDD

Penodir Ymddiriedolwyr i Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) yn unol â'i *Siarter Frenhinol a'r Statudau* a gwneir pob penodiad trwy ddetholiad agored.

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys pymtheg Ymddiriedolwr, wyth wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys y Llywydd, Is Lywydd a'r Trysorydd, y cyfeirir atynt ar y cyd fel Swyddogion y Llyfrgell. Penodir y Llywydd a'r Is Lywydd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, a'r Trysorydd gan y Llyfrgell mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Mae gofyn i Ymddiriedolwyr gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwr elusen, fel y'u diffiniwyd a'u cyflwynwyd gan y Comisiwn Elusennau yn y ddogfen *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol*.

Dylai Ymddiriedolwyr hefyd wybod am yr ymrwymadau arnynt sy'n codi yn sgil sefyllfa'r Llyfrgell fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn y *Ddogfen Fframwaith*, sy'n egluro'r Telerau a'r Amodau y mae'r Llyfrgell yn derbyn arian gan y Lywodraeth.

Mae'r *Rheoliadau* hefyd yn esbonio gwaith y Bwrdd a'i Ymddiriedolwyr ac yn amlinellu cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd.

Mae *Fframwaith Llywodraethiant y Llyfrgell* yn egluro'n fanwl swyddogaeth y Bwrdd ac mae hefyd yn cynnwys *Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr*.

Cefnogir y Bwrdd gan y Tîm Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'i ddau ddirprwy. Y Tîm sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei nodau ac amcanion corfforaethol ac yn gwireddu amrywiaeth llawn ei swyddogaethau a'i chyfrifoldebau yn effeithiol ac yn effeithlon.

DISGRIFIAD RÔL: YMDDIRIEDOLWR

Gellir crynhoi rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr fel a ganlyn;

- mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd ynghyd ag unrhyw gyfarfodydd perthnasol eraill, a pharatoi'n drylwyr ar gyfer y cyfarfodydd hynny
- bod yn barod i ymaelodi â'r is-bwyllgorau; y tri phwyllgor sefydlog yw Archwilio a Risg, Cynllunio Ariannol a Llywodraethiant a Pherfformiad
- rhoi cefnogaeth frwd i reolwyr a staff y Llyfrgell yn eu gwaith
- cynrychioli'r Llyfrgell mewn achlysuron cyhoeddus
- hyrwyddo proffil y Llyfrgell
- defnyddio'u sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol er budd y Llyfrgell

- hwyluso'r cyswllt â rhanddeiliaid y Llyfrgell
- cyfrannu at drafodaethau wrth benderfynu ar bolisiau, strategaethau a blaenoriaethau wrth reoli casgliadau, adeiladau a gweithgareddau'r Llyfrgell
- ymddwyn ar bob adeg mewn ffordd sy'n ennyn hyder y cyhoedd ac sy'n bodloni safonau bywyd cyhoeddus yn unol ag egwyddorion Nolan.

MANYLEB Y PERSON: YMDDIRIEDOLWR

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i weithredu'n effeithiol, mae angen Ymddiriedolwyr sydd ag amrywiaeth eang o gymwyseddau, arbenigedd a phrofiad. Disgwylir i'r holl Ymddiriedolwyr fod â gwir ddiddordeb yng ngwaith a materion y Llyfrgell, yn ogystal â medru:

- cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau a dadleuon ac i roi arweiniad lle bo'i angen
- parodrwydd i gydweithio â chyd-ymddiriedolwyr
- sensitifrwydd a bod yn effro i ddirnad barn gyhoeddus ar faterion diwylliannol
- profiad rheoli mewn cyd-destun gweinyddol, busnes, sefydliad, neu gyd-destun arall
- cadw at y safonau priodoldeb uchaf

a deall neu wybod am y rhain:

- y sector treftadaeth ddiwylliannol yn gyffredinol a threftadaeth ddiwylliannol Cymru yn benodol
- statws yr iaith Gymraeg a'r dyhead i wneud Cymru yn genedl ddwyieithog
- rôl Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru a'u perthynas â'r Llyfrgell
- swyddogaethau a chyfrifoldebau elusen gofrestrdig
- ymroddiad i faterion cydraddoldeb a herio arferion sy'n gwahaniaethu;

CEFNDIR

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o brif sefydliadau diwylliannol Cymru, a phrif ffynhonnell gwybodaeth a gofnodwyd y wlad. Mae'n gorff o fri rhyngwladol, ac mae'n cyfrannu at rwydwaith fyd-eang o ddarparwyr gwybodaeth. Mae'r Llyfrgell yn anarferol, os nad unigryw, ymysg llyfrgelloedd cenedlaethol o ran ei bod yn casglu ac yn rhoi mynediad i wybodaeth a gofnodwyd ym mhob cyfrwng bron â bod – llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd, llawysgrifau ac archifau, mapiau, peintiadau, lluniau a phrintiau, ffotograffau, delweddau symudol a sain, a chyfryngau electronig. Mae'r Llyfrgell yn CNLC (sef Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) a hefyd yn elusen gofrestrdig sy'n gorfod bodloni Cyfraith Elusennau.

Mae strategaeth y Llyfrgell yn ceisio llywio llwybr ar gyfer datblygiad y Llyfrgell dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n cynnig strategaeth sydd am ddiogelu gwaith hanfodol presennol y Llyfrgell, ar yr un pryd ag agor y potensial anferthol sydd gan y Llyfrgell i gyfoethogi pobl Cymru, er budd cynulleidfaoedd ehangach a defnyddwyr newydd.

HYD Y PENODIAD

Bydd y penodiad am gyfnod o bedair blynedd ac yn cychwyn ar 1 Chwefror 2022.

YMRODDIAD AMSER A LLEOLIAD CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd chwech gwaith y flwyddyn ar hyn o bryd; maent yn gyfarfodydd cyhoeddus sydd â chyfieithu ar y pryd yn digwydd. Mae modd i Ymddiriedolwyr gymryd rhan yn y drafodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cynhelir y cyfarfodydd yn amlryw, gydag Ymddiriedolwyr yn medru ymuno naill ai yn y Llyfrgell neu yn rhithwir ar blatfform arlein. Mae'r cyfarfodydd yn para rhyw deir awr.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn cwrdd pum gwaith y flwyddyn; cynhelir y cyfarfodydd yma yn rhithwir ar blatfform arlein.

TALIAD CYDNABYDDIAETH

Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl ar hyn o bryd ond o fewn y cyfyngiadau cydnabyddedig, mae modd hawlio oddi wrth y Llyfrgell unrhyw gostau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi o wneud gwaith i'r Bwrdd. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau yn ymwneud â gofal plant/gofal am yr henoed/gofalwr cynorthwyl, tra ydych yn gwneud gwaith ar ran y Bwrdd.

CYMORTH I AELODAU SYDD AG ANABLEDDAU

Gwneir pob ymdrech i ddarparu pa bynnag gymorth rhesymol y mae Ymddiriedolwyr ei angen i'w cynorthwyo i wneud eu dyletswyddau.

HYFFORDDIANT CYNEFINO

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu sesiynau cynefino, naill ai yn y Llyfrgell neu arlein.

GWERTHUSO PERFFORMIAD

Bydd y Llywydd yn cynnal gwerthusiad perfformiad o'r holl Ymddiriedolwyr yn flynyddol.

Y BROSES DEWIS

Polisi'r Llyfrgell yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal i bob agwedd ar eu busnes gan gynnwys penodi i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Croesawir ac anogir ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig a phobl sydd ag anableddau. Mae anghydbwysedd rhywedd ar y Bwrdd (diffyg aelodau benywaidd) yn fater o bryder ar hyn o bryd a byddwn yn gobeithio bod modd mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn ystod y broses hon, serch hynny dilynir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a phenodir ar sail teilyngdod.

GWYBODAETH BELLACH AC YMHOLIADAU

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio neu ynghylch y Llyfrgell, cysylltwch â Pedr ap Llwyd, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd neu Carol Edwards, Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar y rhif ffôn 01970 632923 neu drwy yrru e-bost at pedr.ap.llwyd@llyfrgell.cymru neu carol.edwards@llyfrgell.cymru neu efallai yr hoffech fynd i wefan y Llyfrgell: www.llyfrgell.cymru

YMGEISIO

Dylid ymgeisio drwy anfon CV a llythyr yn nodi sut yr ydych yn cwrdd â'r manyleb ar gyfer y rôl. Dylech gynnig tystiolaeth ynghylch sut mae eich profiad yn bodloni'r meini prawf, a hynny drwy dynnu ar enghreifftiau o'r profiadau yn eich bywyd. Cofiwch roi sylw penodol i'r meini prawf a ddisgrifir.

DYDDIAD CAU

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 4.00 o'r gloch ar 17 Tachwedd 2021.